

Perchennog / Meddiannydd

Cyfeirnod y Cynllun: IF904-025

Dyddiad: 16/06/26

Ymholiadau dros y Ffôn: 01443 425001

Gofynnwch am: Mason Powell - Rheoli Traffig

Annwyl Syr/Fadam,

YMGYNGHORIAD CYN Y CAM STATUDOL
HEOL CAERDYDD A FFYRDD CYFAGOS – Y DDRAENEN-WEN
CYFYNGIADAU GWAHARDD AROS A LLWYTHO AR UNRHYW ADEG
ARFAETHEDIG

Mae'r Cyngor wedi datblygu cynigion i gyflwyno cyfyngiadau gwahardd aros a llwytho ar unrhyw adeg ar Heol Caerdydd ac ar y cyffyrdd cyfagos, sef Stryd Owen, Stryd y Tuduriaid, Stryd Francis, Glanfelin, Stryd Gwilym, Stryd De Barri, Stryd y Tuduriaid, Coedlan Nant-y-dall, Ymyl Yr Afon a Rhodfa Sant Luc, y Ddraenen-Wen er mwyn:

- Osgoi perygl i bobl neu draffig arall sy'n defnyddio'r ffordd ac atal y tebygolrwydd y bydd unrhyw berygl o'r fath yn codi
- Hwyluso'r broses o deithio ar hyd y ffordd neu unrhyw ffordd arall sy'n cynnwys traffig o unrhyw fath (gan gynnwys cerddwyr)

Bydd y newidiadau arfaethedig yn helpu i sicrhau ei bod hi'n haws i gerbydau deithio a symud ar hyd y darnau o ffordd sydd wedi'u heffeithio trwy sicrhau nad oes unrhyw gerbydau'n parcio ar hyd y ffordd.

Byddai'r cyfyngiadau gwahardd aros a llwytho ar unrhyw adeg sydd wedi'u cynnig ar y cyffyrdd sydd wedi'u crybwyll hefyd yn gwella gwelededd ar y cyffyrdd yna. Byddai hyn yn rhoi mwy o amser i yrwyr ymateb i beryglon sy'n dod tuag atyn nhw, megis cerddwyr yn croesi'r ffordd a cherbydau sy'n dod tuag atyn nhw neu'n troi i mewn neu allan o'r cyffyrdd yma, gan leihau'r perygl o wrthdrawiad.

Byddai'r cyfyngiadau hefyd yn berthnasol i'r darnau o lwybr troed sy'n rhedeg ar eu hyd, gan helpu i'w cadw'n glir o barcio a allai fel arall rwystro'r llwybr troed.

O ganlyniad i'r newidiadau yma, fyddai dim angen i'r rheiny sy'n cerdded ac yn teithio

Stephen Williams BSc(hons)MBA, GDipLaw, PGDipLegalPractice, MCIOB

Ffôn/Tel: 01443 425001

Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Amgylchedd
Director of Environmental Services

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Rhondda Cynon Taf County Borough Council

Llawr 2, 2 Llys Cadwyn, Stryd y Taf,
Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Taff Street,
Pontypridd, CF37 4TH



Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi.
Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.

We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay.
Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



ar olwynion yn yr ardal deithio'n uniongyrchol ar y briffordd er mwyn osgoi cerbydau sydd wedi'u parcio ar y droedffordd. Byddai'r newidiadau hefyd yn lleihau'r angen i gerddwyr groesi'r ffordd o'r tu ôl i gerbydau sydd wedi'u parcio ar y cyffyrdd sydd wedi'u heffeithio. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i gerddwyr fynd ar hyd y ffordd.

Yn ogystal, drwy helpu i sicrhau bod lled llwybrau troed yn cael ei gynnal ar ffyrdd sydd wedi'u heffeithio, byddai'n haws i'r rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu gymhorthion symudedd ac i'r rhai â chadeiriau gwthio deithio ar y llwybr troed, gan greu amgylchedd llwybr troed mwy hygyrch i bawb.

O ganlyniad i'r cyfyngiadau gwahardd aros a llwytho ar unrhyw adeg, fyddai dim modd i ddeiliaid bathodyn glas barcio ar y darnau o'r ffordd lle mae'r cyfyngiadau yma'n berthnasol.

O ganlyniad i'r cynnig yma, bydd y Cyngor yn cynnal Ymgynghoriad Cyn y Cam Statudol.

Dweud Eich Dweud

Mae manylion y cynllun i'w gweld yn y llun sydd ynghlwm wrth y llythyr yma, TM26/128/IC, ac mae modd bwrw golwg arno ar ein gwefan: www.rctcbc.gov.uk/traffig. Byddaf i'n falch iawn o dderbyn eich sylwadau mewn perthynas â'r cynnig. Rydw i wedi amgáu ffurflen ymateb ac amlen barod.

Mae'ch sylwadau chi'n bwysig i ni a byddan nhw o gymorth i'r Cyngor yn ystod y gwaith o ddod i benderfyniad. Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i'r holl sylwadau ynglŷn â'r cynllun, ond fydd dim ymateb ffurfiol iddyn nhw yn ystod y cyfnod yma. Byddwn ni'n cynnal proses ymgynghori arall yn ystod cyfnod cyflwyno Hysbysiad Cyhoeddus (sydd hefyd yn cael ei alw'n ymgynghoriad statudol), pan fydd cyfle ffurfiol gyda chi i ddweud eich dweud mewn perthynas â'r cynigion dan sylw.

Gofynnaf i chi gyflwyno'ch sylwadau ynglŷn â'r cynnig cyn pen **07/07/26**.

Pe hoffech chi anfon eich ymateb drwy e-bost, e-bostiwch: ymgynghoriadautraffig@rctcbc.gov.uk gan nodi cyfeirnod 'IF904-025'.

Yn gywir,

Rebecca Baker

Y Garfan Rheoli Traffig

Stephen Williams BSc(hons)MBA, GDipLaw, PGDipLegalPractice, MCI0B

Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Amgylchedd

Director of Environmental Services

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Rhondda Cynon Taf County Borough Council

Llawr 2, 2 Llys Cadwyn, Stryd y Taf,

Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Taff Street,

Pontypridd, CF37 4TH

Ffôn/Tel: 01443 425001



MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection



Owner/ Occupier

Scheme Ref: IF904-025

Date: 16/06/26

Telephone Queries: 01443 425001

Please Ask For: Mason Powell - Traffic Management

Dear Sir/Madam,

PRE-STATUTORY CONSULTATION
CARDIFF ROAD AND ADJOINING ROADS, HAWTHORN –
PROPOSED PROHIBITION OF WAITING AND LOADING AT ANY TIME
RESTRICTIONS

The Council has developed proposals to introduce prohibition of waiting and loading at any time restrictions in Cardiff Road and at the junctions adjoining Cardiff Road in Owen Street, Tudor Street, Francis Street, Glanfelin, Gwilym Street, De-Barri Street, Nant-Y-Dall Avenue, Ymyl Yr Afon and St. Luke's Avenue, Hawthorn in order to:

- Avoid danger to persons or other traffic using the road or any other road or to prevent the likelihood of any such danger arising
- Facilitate the passage on the road or any other road of any class of traffic (including pedestrians)

The proposed changes will help to ensure that vehicles are able to manoeuvre the affected lengths with greater ease by keeping these lengths clear of parking, therefore facilitating passage.

The lengths of prohibition of waiting and loading at any time restrictions proposed at the mentioned junctions would also increase in visibility at said junctions. This would allow drivers more time to react to oncoming hazards such as pedestrians crossing the road and oncoming vehicles turning into or out of these junctions, therefore reducing risk of collision.

The restrictions would also apply to the lengths of footway running alongside, helping to keep them clear of parking which may otherwise obstruct the footway. These changes would therefore reduce the need for those walking and wheeling in the area

Stephen Williams BSc(hons)MBA, GDipLaw, PGDipLegalPractice, MCI0B

Ffôn/Tel: 01443 425001

Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Amgylchedd

Director of Environmental Services

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Rhondda Cynon Taf County Borough Council

Llawr 2, 2 Llys Cadwyn, Stryd y Taf,

Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Taff Street,

Pontypridd, CF37 4TH



Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi.
Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.

We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay.
Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



to travel directly in the highway to avoid vehicles parked on the footway and reduce the need for pedestrians to cross from behind parked vehicles at the affected junctions, therefore better facilitating passage for pedestrians.

Additionally, by helping to ensure footway widths are maintained at the affected lengths it would become easier for those using wheelchairs or mobility aids and for those with pushchairs to travel on the footway, creating a more accessible footway environment for all.

Due to there being both a prohibition of waiting and loading at any time, blue badge holders would not be able to park on the lengths of road where these restrictions are.

As a result of this proposal The Council are holding a pre-statutory consultation.

Give your views

Details of the proposals are shown in the attached drawings TM26/128/IC, this may also be viewed online at www.rctcbc.gov.uk/traffic. I shall be pleased to receive your comments and views on the proposal and have enclosed a response form and a postage paid envelope.

Your comments are important to us and will help the Council in its decision-making process. All observations relating to the scheme will be taken into consideration, however, the Council will make no formal response to your comments at this stage. A further consultation exercise is given at Public Notice stage (also known as the statutory consultation), when you will have a formal opportunity to give your views on the proposal.

Please could I receive your observations on this proposal by **07/07/26**.

Should you wish to respond by e-mail please send to TrafficConsultations@rctcbc.gov.uk quoting reference 'IF904-025'.

Yours faithfully,

Rebecca Baker

Traffic Management Team

Stephen Williams BSc(hons)MBA, GDipLaw, PGDipLegalPractice, MCIQB
Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Amgylchedd
Director of Environmental Services

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Rhondda Cynon Taf County Borough Council

Llawr 2, 2 Llys Cadwyn, Stryd y Taf,
Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Taff Street,
Pontypridd, CF37 4TH

Ffôn/Tel: 01443 425001



MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection

